Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Cylch Gorchwyl Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu

**1. CYFLWYNIAD**

Mae'r ddogfen hon yn diffinio'r cylch gorchwyl ar gyfer Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, ei aelodaeth a rolau a chyfrifoldebau'r aelodau.

## 2. DIBEN BWRDD ATEBOLRWYDD YR HEDDLU

Sefydlodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu (CHTh), sydd â dyletswydd statudol a mandad etholiadol i ddal yr heddlu'n gyfrifol ar ran y cyhoedd. Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yw'r fforwm lle bydd CHTh yn dal y Prif Gwnstabl (PG) i gyfrif am arfer swyddogaethau swydd y PG a swyddogaethau'r bobl sydd o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y PG.

Mae'r Bwrdd Plismona yn rhoi cyfle amserol i graffu ar fusnes yr Heddlu ac i'w oruchwylio. Bydd yn canolbwyntio ar gyflwyno gwasanaeth yn erbyn y blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu yn ogystal â rhyddhau'r gofynion a nodir yn y Fframwaith Llywodraethu ar y Cyd.

## 3. LLYWODRAETHU

- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw Cadeirydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, ac yn ei absenoldeb, y Pennaeth Staff.
- Bydd unrhyw faterion na ellir eu datrys gan y Grŵp, neu faterion sydd angen eu dwysáu, yn cael eu hystyried yn ffurfiol yng Nghyfarfod Tîm Gweithredol SCHTh.
- Mae gan Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu'r awdurdod i wneud penderfyniadau ac ymrwymo adnoddau ar yr amod nad yw'n newid ethos sylfaenol cenhadaeth, gweledigaeth a gwerthoedd CHTh. Mae gan y Bwrdd rôl allweddol o ran sicrhau bod ymrwymiadau'r heddlu a SCHTh tuag at ofynion cenedlaethol yn cael eu cynnal a'u gwella yn ôl yr angen.
- Mae Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu'n cael ei ddal i gyfrif am y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau gan y Pennaeth Staff a Swyddog Monitro. Ystyrir cynnwys unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg yng Nghofrestr Risg yr Heddlu.

## 4. CYLCH GORCHWYL

Caiff blaenraglen waith ei sefydlu i sicrhau bod cyfarfodydd yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar faterion ar adegau priodol drwy gydol y flwyddyn. Bydd Bwrdd Gweithredol SCHTh yn adolygu hyn bob chwarter. Bydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu'n ystyried y themâu a drafodwyd yn y Byrddau Plismona a gynhelir yn ystod y chwarter ariannol, ac unrhyw waith a wnaed er mwyn cefnogi'r materion a godir. Bydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu hefyd yn cael adroddiad perfformiad mewn perthynas â chyflwyno gwasanaeth yn erbyn y blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu.

Yn unol â Phrotocol Plismona 2011, bydd Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu’n:

- Archwilio, cefnogi a herio perfformiad yn erbyn y blaenoriaethau strategol a amlinellir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu;
- Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad swyddogion a staff yr Heddlu;
- Darparu'r cyswllt lleol rhwng yr heddlu a chymunedau, gan weithio i roi dymuniadau a dyheadau cyfiawn y cyhoedd ar waith;
- Canolbwyntio ar gyflenwi gwasanaethau effeithiol sy'n cefnogi dioddefwyr ac sy'n darparu bodlonrwydd dioddefwyr a hyder cyhoeddus;
- Ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl ac yn cyflawni gwaith sy'n gwella enw da cyhoeddus y gwasanaeth heddlu;
- Darparu her cyfaill beirniadol er mwyn gyrru gwelliannau mewn gwasanaethau plismona, heb lyffetheirio annibyniaeth gweithredol y PG.

## 5. AELODAETH

Bydd y bwrdd yn cynnwys yr aelodau craidd canlynol (neu gynrychiolydd enwebedig):

**Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Y Prif Swyddog Cyllid
- Y Pennaeth Staff a Swyddog Monitro

**Heddlu Dyfed-Powys**

- Y Prif Gwnstabl
- Y Dirprwy Brif Gwnstabl
- Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol
- Y Cyfarwyddwr Cyllid

Nid oes rhaid i’r CHTh a’r PG ill ddau fod yn bresennol bob tro, a chânt wahodd cynrychiolwyr eraill, yn ôl eu disgresiwn, i roi cyngor proffesiynol i’r Bwrdd.

Bydd y Bwrdd yn cwrdd yn chwarterol a bydd angen mwyafrif syml o'r rhai sy'n bresennol er mwyn bodloni'r gofynion cworwm ar gyfer gwneud penderfyniadau.

## 6. YSGRIFENYDDIAETH

Mae Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu yn gyfarfod cyhoeddus. Ceir hysbysiad amdano ar wefan SCHTh o leiaf pythefnos cyn dyddiad y cyfarfod.

Cefnogir aelodau gan Swyddog Staff y PG. Bydd Swyddog Cymorth Gweithredol SCHTh yn gyfrifol am weinyddu’r cyfarfod.

Caiff agenda ac adroddiadau cysylltiedig Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu eu hanfon at aelodau ddim hwyrach na 5 ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod. O’r herwydd, mae papurau i’w hystyried gan Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu i gyrraedd Swyddog Cymorth Gweithredol SCHTh 6 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Bydd yn rhaid i adroddiadau brys neu hwyr gael eu cymeradwyo gan y Pennaeth Staff cyn eu cynnwys i’w hystyried gan y Bwrdd.

SCHTh sydd yn gyfrifol am gynnal cofnodion sydd yn ymwneud â Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu. Bydd hyn yn cynnwys rheoli a chyhoeddi’r cofnodion a chasglu agendâu a phapurau‘r cyfarfodydd. Swyddog Staff y PG sy’n gyfrifol am sicrhau bod papurau’r Heddlu’n cael eu cyflwyno’n amserol, a bydd yn rhoi gwybod i aelodau staff perthnasol o fewn yr Heddlu am ganlyniadau a chamau gweithredu. Bydd Swyddog Cymorth Gweithredol SCHTh yn rhoi gwybod i aelodau staff perthnasol SCHTh am ganlyniadau a chamau gweithredu.

Rhaid i bapurau a gyflwynir i'r Bwrdd Plismona gael eu cyflwyno ar ffurf y cytunwyd arno. Bydd angen marcio pob papur a dderbynnir yn briodol, yn unol â Chynllun Dosbarthiad Diogelwch y Llywodraeth, er mwyn amddiffyn rhag datgelu amhriodol.

Bydd materion sy'n cael eu trafod gan Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu sydd â sensitifrwydd gweithredol, yn cyfeirio at wybodaeth bersonol, neu sydd â sensitifrwydd masnachol naill ai'n cael eu cyhoeddi ar adeg briodol yn y dyfodol neu'n cael eu cadw gan SCHTh. Bydd y penderfyniadau sy'n ymwneud â chyhoeddi gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd yn cael eu gwneud yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a rheoliadau neu offerynnau statudol eraill sy'n berthnasol i'r gwasanaeth plismona a'r Comisiynydd.

## 7. RHEOLI FERSIYNAU A DYDDIAD ADOLYGU

| | |
|---|---|
| Fersiwn: | 2020-1 |
| Awdur: | Claire Bryant, Ymgynghorydd Sicrwydd a Pholisi |
| Dyddiad cymeradwyo: | 18/09/2020 |
| Bwrdd cymeradwyo: | Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu |
| Dyddiad adolygu: | Medi 2021 |